

Agenda – Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

| | |
|---|--|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| Cyfarfod Hybrid – Ystafell Bwyllgor 5 | Rhys Morgan |
| Dyddiad: Dydd Llun, 11 Gorffennaf 2022 | Clerc y Pwyllgor 0300 200 6565 |
| Amser: 10.30 | SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru |

Rhag-gyfarfod preifat a chofrestru (10.00 – 10.30)

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.**
(10:30)
- 2 **Papurau i'w nodi**
(10:30)
 - 2.1 **Gohebiaeth gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Cadeirydd ynghylch y confensiwn ar atal a brwydro yn erbyn trais yn erbyn menywod.**
(Tudalennau 1 – 6)
 - 2.2 **Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Cwnsler Cyffredinol at y Llywydd ynghylch y Bil Hawliau**
(Tudalennau 7 – 8)
 - 2.3 **Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch penodi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru (2023 – 2030)**
(Tudalennau 9 – 10)
 - 2.4 **Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at y Cadeirydd ynghylch argymhellion yr adroddiad ar dlodi tanwydd**
(Tudalennau 11 – 21)



- 3 Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru):
sesiwn dystiolaeth 7 – arbenigwyr Caffael**
(10:30–11:20) (Tudalennau 22 – 44)
Ed Evans, CECA Cymru
Liz Lucas, Cyngor Caerffili
EGWYL (11.20–11.35)
- 4 Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru):
sesiwn dystiolaeth 8 – y sector gwirfoddol**
(11:35 – 12:25)
Ben Lloyd, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Kirsty Cumming, Community Leisure UK
EGWYL (12.25–13.25)
- 5 Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru):
sesiwn dystiolaeth 9 – melinau trafod ac academyddion**
(13:30 – 14:30) (Tudalennau 45 – 48)
Harry Thompson, Y Sefydliad Materion Cymreig
Yr Athro Alan Felstead, Prifysgol Caerdydd
Yr Athro Edmund Heery, Athro Emeritws ym Mhrifysgol Caerdydd
Yr Athro Lydia Hayes, Prifysgol Caint
EGWYL (14.30–14.35)
- 6 Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) –
sesiwn dystiolaeth 10 – cyflogwyr y sector cyhoeddus**
(14:45 – 15:35)
Karen Higgins, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Jon Rae, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Marie Brousseau-Navarro, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Alice Horn, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

- 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(iv) a (ix) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

- 8 Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru):
trafod y dystiolaeth**
(15:35 – 16:00)
EGWYL (16.00–16.10)

- 9 Ystyried yr Adroddiad Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE**
(16:10 – 16:20) (Tudalennau 49 – 64)

- 10 Ymchwiliad i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais
rhywiol – menywod mudol: trafod y materion allweddol**
(16:20– 16:45) (Tudalennau 65 – 82)

- 11 Blaenraglen waith**
(16:45–17:15) (Tudalennau 83 – 97)
Blaenraglen waith
Papur cwmpasu ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais
Rhywiol (VAWDASV)

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder

22 Mehefin 2022

Annwyl Jenny,

Confensiwn Cyngor Ewrop ar Atal a Threchgu Trais yn erbyn Menywod a Thrais Domestig

Byddwch yn ymwybodol mai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ystod ein cyfarfod ar 6 Mehefin 2022, gwnaethom drafod Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal a threchgu trais yn erbyn menywod a thrais domestig.

Diben y Confensiwn yw amddiffyn menywod rhag pob math o drais, ac atal, erlyn a diddymu trais yn erbyn menywod a merched drwy greu fframwaith cyfreithiol eang. Mae'r Confensiwn yn diffinio 'trais yn erbyn menywod' a 'thrais domestig' ac yn gosod rhwymedigaethau ar bartion i fabwysiadu dull cydgyssylltiedig a chydlynol o fynd i'r afael â'r troseddau hyn.

Yn ystod ein trafodaeth, gwnaethom gytuno hefyd i dynnu sylw eich Pwyllgor chi at y penderfyniad i gadarnhau'r Confensiwn, yng ngoleuni ei ymchwiliad i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae ein hadroddiad diweddaraf ynghlwm er gwybodaeth i chi.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Cytundebau Rhyngwladol

Cytundebau a drafodwyd ar 6 Mehefin 2022

Mehefin 2022



1. Cefndir

1. Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol yn y Chweched Senedd nad ydynt yn ymwneud â masnach.
2. Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.
3. Bydd y Pwyllgor yn ystyried effaith cytundebau rhyngwladol ar Gymru mewn cysylltiad â'r rhai a osodir yn Senedd y DU o dan y broses a sefydlwyd gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 (Deddf 2010). Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynol o 21 diwrnod.
4. Mae ein trafodaethau ynghylch cytundeb rhyngwladol yn ystyried:
 - a yw'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd; a/neu
 - a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.
5. Ar 6 Mehefin 2022, gwnaethom drafod dau gytundeb rhyngwladol a osodwyd yn ddiweddar yn Senedd y DU.¹
6. Y cytundebau a drafodwyd oedd:
 - Confensiwn Cyngor Ewrop ar Atal a Threchgu Trais yn erbyn Menywod a Thrais Domestig;
 - Cytundeb y DU/Ffrainc ar Gydweithio mewn Materion sy'n Ymwneud â Diogelwch Morol a Phorthladdoedd, ac yn benodol, mewn perthynas â Llongau Teithwyr yn y Sianel.
7. Cytunwyd i gymryd camau pellach ar un o'r cytundebau ac i nodi'r ail er gwybodaeth yn unig. Ceir rhagor o fanylion am bob un o'r cytundebau isod.

¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Mehefin 2022

2. Cytundeb y mae angen gweithredu pellach yn ei gylch

Confensiwn Cyngor Ewrop ar Atal a Threchu Trais yn erbyn Menywod a Thrais Domestig

- 8.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn, sydd hefyd yn cael ei alw Confensiwn Istanbul (y Confensiwn), yn Senedd y DU ar 17 Mai 2022. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 29 Mehefin 2022.
- 9.** Diben y cytundeb yw amddiffyn menywod rhag pob math o drais, ac atal, erlyn a diddymu trais yn erbyn menywod a merched drwy greu fframwaith cyfreithiol eang. Mae'r Confensiwn yn diffinio 'trais yn erbyn menywod' a 'thrais domestig' ac yn gosod rhwymedigaethau ar bartion i fabwysiadu dull cydgyssylltiedig a chydlynol o fynd i'r afael â'r troseddau hyn.
- 10.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod y Confensiwn yn ymdrin â materion datganoledig a materion a gadwyd yn ôl. Mae'n rhestru'r 14 o erthyglau sy'n ymwneud â materion datganoledig ac sy'n gosod rhwymedigaethau ar Lywodraeth Cymru. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn esbonio sut mae Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'r llywodraethau datganoledig i baratoi adroddiadau ar y cynnydd o ran cadarnhau'r Confensiwn. Mae hefyd yn cadarnhau bod y llywodraethau datganoledig yn cefnogi penderfyniad Llywodraeth y DU i gadarnhau'r Confensiwn.
- 11.** Gwnaethom nodi'r cytundeb a chytuno i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am y wybodaeth a ganlyn:
- ei rhan yn y penderfyniad i gadarnhau'r Confensiwn ac a yw hyn yn cael ei ddisgrifio'n gywir yn y Memorandwm Esboniadol;
 - sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei dyletswyddau o dan y Confensiwn, ar gyfer pob un o'i erthyglau sy'n ymwneud â meysydd datganoledig, fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol;
 - a oes angen cymryd camau pellach i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio'n llawn â'r Confensiwn.
- 12.** Cytunwyd hefyd i dynnu sylw'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol at y penderfyniad i gadarnhau'r Confensiwn, yng ngoleuni ei ymchwiliad i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

3. Cytundeb wedi'i nodi er gwybodaeth

Cytundeb y DU/Ffrainc ar Gydweithio mewn Materion sy'n Ymwneud â Diogelwch Morol a Phorthladdoedd, ac yn benodol, mewn perthynas â Llongau Teithwyr yn y Sianel

13. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 11 Mai 2022. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 23 Mehefin 2022.

14. Diben y cytundeb yw disodli'r memoranda cyd-ddealltwriaeth sydd eisoes yn bodoli a chyflawni ymrwymiad a wnaed yn 2018 rhwng y ddau wladwriaeth i adeiladu ar eu strategaeth diogelwch morol ar y cyd gyda chytundeb dwyochrog.

15. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod Grŵp Diogelwch Cartref y Swyddfa Gartref wedi ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig yn ystod y trafodaethau. Mae'r Memorandwm hefyd yn disgrifio cydweithio agos rhwng partneriaid gweithredol yn y gwledydd datganoledig ar ddiogelwch morol a diweddariadau ar gynnydd drwy Weithgor Gwrth-derfysgaeth Morol Llywodraeth y DU. Mae'r Memorandwm yn cadarnhau bod y llywodraethau datganoledig yn gwbl gefnogol ac yn nodi na chafwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cytundeb.

16. Nodwyd y cytundeb gennym er gwybodaeth yn unig.

4. Gohebiaeth yn ymwneud â chytundebau a drafodwyd yn flaenorol

17. Yn dilyn ein cyfarfod ar 14 Mawrth 2022² cytunwyd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth am y broses ymgynghori ar gyfer y Confensiwn ar y Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Cymhorthion Mordwyaeth Forol (IOMAN).³

18. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y cytundeb hwn yn dweud bod Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar ddrafftio'r Confensiwn a'u bod nhw hefyd yn fodlon ar y sefyllfa. Fodd bynnag, yn ei hymateb⁴ i'n llythyr, dywedodd Llywodraeth Cymru "[nad] ymgynghorodd Llywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru wrth ddrafftio'r confensiwn" a'i bod yn "siomedig bod penderfyniad ar gyfer y DU gyfan, fel yr un i sefydlu'r sefydliad rhynglywodraethol newydd hwn, wedi cael ei wneud heb gysylltu a thrafod gyda Llywodraeth Cymru." Mae'r ymateb yn croesawu'r camau i gryfhau cydweithredu rhyngwladol o ran gwella diogelwch mordwyaeth forol fyd-eang, ond mae'n ei gwneud yn glir bod y confensiwn "yn effeithio ar bob rhan o'r DU ac mae angen i fuddiannau Cymru gael bod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau".

19. Gwnaethom ystyried yr ymateb hwn yn ein cyfarfod ar 16 Mai 2022⁵ a chytunwyd i ysgrifennu at Bwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi⁶ i ddod â'r gwahaniaeth hwn o ran y broses ymgynghori i'w sylw. Trafodwyd ymateb y Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol⁷ gennym yn ein cyfarfod ar 6 Mehefin 2022.⁸

² [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Mawrth 2022](#)

³ [Llythyr at y Prif Weinidog, 23 Mawrth 2022](#)

⁴ [Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, 11 Mai 2022](#)

⁵ [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mai 2022](#)

⁶ [Llythyr at Bwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi, 20 Mai 2022](#)

⁷ [Llythyr gan Bwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi, 27 Mai 2022](#)

⁸ [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Mehefin 2022](#)

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1SN

Llywydd@senedd.wales

01 Gorffennaf 2022

Annwyl Elin

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Dominic Raab AS, [Bil Hawliau](#) (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22 Mehefin.

O'n dadansoddiad cychwynnol, mae'r Bil yn cyfeirio at feysydd lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli. Mewn llythyr at Brif Weinidog Cymru ar 22 Mehefin, mae Dirprwy Brif Weinidog y DU yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddechrau'r broses i baratoi ar gyfer cydsyniad deddfwriaethol yn Senedd Cymru. Fodd bynnag, o ystyried na fu braidd dim ymgysylltu â Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU cyn ei gyflwyno er gwaethaf cymhlethdod y materion sy'n codi yn y Bil, ni fu'n bosibl inni ystyried yn briodol eto beth fydd effaith yr hyn sy'n cael ei gynnig ar y meysydd sydd wedi'u datganoli.

Bydd angen inni gynnal dadansoddiad manwl o'r Bil hwn. Fodd bynnag, dim ond pump o'r 41 cymal o'r Bil a rannwyd gyda ni cyn ei gyflwyno. Ac roedd y pum cymal a rannwyd yn ddiystyr i raddau helaeth heb weld y cymalau eraill y maent yn berthnasol iddynt. Ni rannwyd dim un o'r pum atodlen ymlaen llaw. Mae hwn yn Fil sydd ag arwyddocâd cyfansoddiadol mawr, sy'n gymhleth iawn ac sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006, felly bydd angen edrych yn fanwl iawn ar bob darpariaeth.

Lansiodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar y cynnig i ddisodli Deddf Hawliau Dynol 1998 ar 21 Rhagfyr 2021. Cyflwynwyd ymateb gennym i'r ymgynghoriad hwn, a ddaeth i ben ar 8 Mawrth, a chafodd [Datganiad Ysgrifenedig](#) ei gyhoeddi gennym ar yr un diwrnod. Ar 3 Mai, cynhaliwyd [dadl gan Lywodraeth Cymru ar Hawliau Dynol](#) yn y Cyfarfod Llawn. Gwnaethom hefyd gyhoeddi [Datganiad Ysgrifenedig](#) arall ar y diwrnod y cyflwynwyd y Bil.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 7

Rydym yn disgwyl gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd cyn gynted ag y bydd gennym ddarlun clir o ganlyniadau darpariaethau datganoledig y ddeddfwriaeth arfaethedig. Er y bydd hyn y tu allan i'r terfyn amser arferol o bythefnos ar gyfer Rheol Sefydlog 29, gobeithiwn osod y Memorandwm yn gynnar yn ystod toriad haf y Senedd.

Rydym yn anfon copi o'r llythyr hwn at Brif Weinidog Cymru, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol.

Yn gywir



Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder
Cymdeithasol
Minister for Social Justice



Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution



Ein cyf/Our ref: MA/JH-/2219/22

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

5 Gorffennaf 2022

Annwyl Jenny,

Penodi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2023-2030)

Bydd penodi'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol nesaf yn benodiad pwysig gan Weinidogion Cymru, a gaiff bellach ei reoleiddio o dan y Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus. Hoffwn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer y broses ddethol a cheisio eich barn ar p'un a fyddai'r Pwyllgor yn dymuno manteisio ar y cyfle i gael gwrandawriad cyn penodi gyda'r ymgeisydd a ffefrir, ai peidio.

Heddiw, rwyf wedi ysgrifennu at Adam Price AS, Andrew RT Davies AS and Jane Dodds AS yn gofyn iddynt enwebu cynrychiolydd i eistedd ar y Panel Asesu Ymgynghorol a fydd yn rhoi cyngor i'r Prif Weinidog ynghylch y penodiad. Bydd y Panel Asesu Ymgynghorol yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o bleidiau gwleidyddol y Senedd, ac Uwch Aelod Panel Annibynnol. Caiff ei gadeirio gan Uwch Was Sifil. Fi fydd yr aelod ar y Panel Asesu Ymgynghorol a fydd yn cynrychioli Llafur Cymru.

Yn ogystal â'r camau sifftio a chyfweld, ceir hefyd sesiwn rhanddeiliaid ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer, a fydd yn cynnwys unigolion o alumni Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. Caiff yr Academi hon ei rhedeg gan swyddfa'r Comisiynydd ac mae'n dod ag amrywiaeth eang o bobl ynghyd o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i ddatblygu eu gwybodaeth, eu harferion a'u harweinyddiaeth ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Bydd gofyn i'r ymgeiswyr ar y rhestr fer gynnal trafodaeth â rhanddeiliaid yr Academi yn ystod y sesiwn ar bwnc perthnasol a phwysig. Cytunir ar y pwnc yn nes at yr amser.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Gweinidogion Cymru a'r Senedd wedi cytuno i gyflwyno proses graffu cyn penodi ar gyfer penodiadau pwysig er mwyn gwella ymhellach y craffu a'r tryloywder sy'n rhan o'r broses penodiadau cyhoeddus. Fel y Pwyllgor sydd â'r cyfrifoldeb penodol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd gennych yr opsiwn i gynnal gwrandawriad cyn penodi. Rwy'n ystyried y gwrandawriad cyn penodi yn ddefnydd ffurfiol o'r ddyletswydd i ymgynghori â'r Senedd. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor gadarnhau a yw'r aelodau'n dymuno cynnal gwrandawriad cyn penodi ai peidio. Ar sail ein hamserlen arfaethedig, disgwyliwn mai ym mis Tachwedd 2022 y caiff ei gynnal.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a long horizontal line above the first letter 'J'.

Jane Hutt AS/MS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Minister for Social Justice

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Eitem 2.4

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Ein cyf/Our ref MA/JH/2217/22

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

05 Gorffennaf 2022

Annwyl Jenny

Diolch am eich adroddiad ar 18 Mai ynghylch yr ymchwiliad i dlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor am yr effaith y mae'r argyfwng ynni a chostau byw yn ei chael ar aelwydydd yng Nghymru. Fel y mae eich adroddiad yn ei wneud yn amlwg, mae'r rhagolygon diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Ebrill yn awgrymu y gallai 45% o holl aelwydydd Cymru fod yn gwario mwy na 10% o incwm eu haelwyd ar eu hanghenion ynni domestig.

Amgaeir ein hymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad.

Ers mis Hydref, rydym wedi neilltuo £380 miliwn ar gyfer pecyn o fesurau i gefnogi aelwydydd sydd fwyaf anghenus. Y gaeaf diwethaf, elwodd dros 166,000 o aelwydydd ar £200 nad oedd rhaid ei ad-dalu oddi wrth y cynllun cymorth tanwydd gaeaf a bydd cynllun arall ar gael i aelwydydd cymwys yr hydref hwn. Rydym yn edrych ar sut y gall y cynllun gyrraedd mwy o aelwydydd. Mae dros 330,000 o aelwydydd yn elwa ar yr ad-daliad treth gyngor o £150 sy'n cael ei brosesu ar hyn o bryd gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 11
Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym hefyd yn sicrhau bod cymorth ar gael i fanciau bwyd ac y gwneir taliadau i'r aelwydydd mwyaf agored i niwed drwy ein Cronfa Cymorth Dewisol. Ar 10 Mehefin, cyhoeddwyd cyllid pellach o £4 miliwn gennym i weithio gyda'r Sefydliad Banc Tanwydd i gefnogi aelwydydd incwm is nad ydynt ar y grid nwy a'r rhai sy'n dibynnu ar fesuryddion talu ymlaen llaw i dalu am eu hynni domestig.

Mesurau yw'r rhain sy'n rhoi arian ym mhocedi pobl sydd bellach yn ei chael yn anodd talu am gostau byw hanfodol o ddydd i ddydd. Rydym yn cydweithio â rhanddeiliaid i edrych ar beth arall y gellir ei wneud i leihau'r baich ar gyfer y gaeaf i ddod. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, nad yw'r mesurau dros dro hyn yn mynd i'r afael â'r gwendidau sylfaenol yn sector ynni'r DU, sy'n parhau i ddibynnu ar losgi tanwydd ffosil i ddiwallu ein hanghenion ynni.

Mae digwyddiadau diweddar yn tanlinellu pa mor bwysig yw symud at gyflenwad ynni mwy cynaliadwy a chadarn, er mwyn sicrhau parhad a phrisiau sefydlog i ddefnyddwyr a chyflawni'r uchelgeisiau a rannwn ynghylch gweithredu ar sail sero net a chyfiawnder cymdeithasol. Dros y degawd diwethaf, mae Llywodraeth y DU wedi methu â rhoi digon o gymhellion ar waith i symud i'r system ynni sero net sydd ei hangen arnom.

Er gwaethaf galwadau niferus i Lywodraeth y DU gymryd camau i gefnogi'r rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ganlyniad i brisiau ynni uchel, nid yw Strategaeth Sefydlogrwydd Ynni'r DU yn gwneud dim i gefnogi dinasyddion. Yn hytrach, mae'n nodi dull gweithredu mewn perthynas â chyflenwi ynni y mae perygl iddo achosi i'r DU fod yn gaeth i ddibyniaeth barhaus ar danwydd ffosil. Bydd hefyd yn gosod baich ariannol sylweddol ar genedlaethau'r dyfodol pan fo opsiynau amgen rhatach ar gael ar gyfer cynhyrchu adnewyddadwy ar raddfa fawr. Byddwn yn parhau i gynyddu'r buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy yng Nghymru ac, wrth inni wneud hynny, byddwn yn ceisio cynyddu i'r eithaf y buddion economaidd a chymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys sut y gallwn leihau biliau defnyddwyr Cymru yn uniongyrchol.

Mae gwella effeithlonrwydd ynni domestig yn parhau i fod yn un o'r mesurau mwyaf effeithiol sydd o fewn ein rheolaeth ni, i liniaru'r gost i aelwydydd o wresogi'u cartrefi'n foddhaol. Fel y nodwyd gennym yn ein tystiolaeth i'r Pwyllgor, ers 2010, mae ein Rhaglen Cartrefi Clyd wedi bod o fudd i fwy na 67,100 o aelwydydd incwm is, ac amcangyfrifir bod hyn yn arbed cyfartaledd blynyddol o fwy na £300 ar eu biliau ynni, yn seiliedig ar werthoedd 2021. Eleni, rydym wedi cynyddu'r gyllideb ar gyfer y Rhaglen Cartrefi Clyd £3 miliwn i gefnogi rhagor o aelwydydd i leihau eu biliau ynni.

Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus ar fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd i ben ar 1 Ebrill ac rydym yn datblygu ein cynigion i'w cyflwyno i'r Senedd pan fydd yn dychwelyd o doriad yr haf. Bydd eich adroddiad gwerthfawr yn llywio ein teithi meddwl. Ar hyn o bryd yn y broses o ddatblygu'r rhaglen, mae'n anodd nodi goblygiadau ariannol argymhellion y Pwyllgor a graddfa a chwmpas fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd. Wrth gwrs, byddwn yn ysgrifennu atoch chi a'r Pwyllgor eto pan fydd y broses ddatblygu wedi'i chwblhau.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Argymhellion adroddiad Pwyllgor y Senedd ar Gydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022
Tlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd – ymateb Llywodraeth Cymru

Tudalen y pecyn 13

| Argymhelliad | Derbyn/Gwrthod | Drafft - Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|----------------|---|
| <p>Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r cymorth a gynigir i aelwydydd incwm isel drwy'r Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf cyn hydref 2022. Dylai'r adolygiad hwn bennu a ellir gwneud gwelliannau wrth dargedu cymorth drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ asesu cyfraddau manteisio yn ôl ardal awdurdod lleol; ▪ asesu effeithiolrwydd hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth; ac ▪ ystyried a oes angen rhagor o waith allgymorth i gefnogi'n rhagweithiol y grwpiau sy'n fwy anodd eu cyrraedd a grwpiau sy'n agored i niwed | Derbyn | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf yr elwodd 166,000 o aelwydydd incwm isel arno yn 2021/22. Mae swyddogion yn cynnal trafodaethau gyda rhanddeiliaid, Awdurdodau Lleol a thimau cyfathrebu i ddeall effeithiolrwydd y cynllun ac i sicrhau bod y cynllun yn cyrraedd cynifer o aelwydydd ag sydd angen cymorth cyn gaeaf 2022.</p> |
| <p>Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu ei hadolygiad o'r camau blaenoriaeth yn y Cynllun Trechu Tlodi Tanwydd gyda'r bwriad o nodi camau neu fesurau ar unwaith ac yn y byrdymor y gallai'r llywodraeth eu cymryd i gefnogi teuluoedd sy'n cael trafferth gyda thlodi tanwydd a phennu targedau interim</p> | Derbyn | <p>Bydd adolygiad o gynllun Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn dechrau eleni gyda chynllun diwygiedig yn cael ei gyhoeddi yn 2023. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau tymor byr i gefnogi aelwydydd drwy'r argyfwng costau byw. Ers mis Hydref 2021, mae cyllid o £380 miliwn wedi'i ddarparu ar gyfer pecyn o fesurau i gefnogi aelwydydd. Ar 10 Mehefin, cyhoeddwyd £4 miliwn o gyllid ychwanegol i ehangu gweithgareddau'r Sefydliad Banc Tanwydd yng Nghymru i gefnogi taliadau atodol ar gyfer mesuryddion talu ymlaen llaw a chronfa wres ar gyfer prynu olew gwresogi o flaen llaw ar gyfer aelwydydd incwm isel nad ydynt ar y grid nwy.</p> |
| <p>Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Panel Cyngori ar Dlodi Tanwydd i nodi camau neu fesurau ar unwaith ac yn y byrdymor y gallai'r llywodraeth eu cymryd i gefnogi teuluoedd mewn tlodi tanwydd. Dylai hyn gynnwys ystyried cyfleoedd i wneud y mwyaf o fanteision y toriad diweddar mewn TAW i ddeunyddiau arbed ynni ac inswleiddio</p> | Derbyn | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r Panel Cyngori ar Dlodi Tanwydd a grwpiau perthnasol eraill i nodi a chyflwyno cyfleoedd priodol i gefnogi teuluoedd yng Nghymru. Fel rhan o'r cynllun i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, cynhelir ymgyrch yn ystod yr hydref hwn (2022) i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i wella gallu aelwydydd i ymdopi â thywydd oer.</p> |

Argymhellion adroddiad Pwyllgor y Senedd ar Gydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022
Tlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd – ymateb Llywodraeth Cymru

Tudalen y pecyn 14

| Argymhelliad | Derbyn/Gwrthod | Drafft - Ymateb Llywodraeth Cymru |
|--|-----------------------------|--|
| <p>Argymhelliad 4. Yn yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd, dylai Llywodraeth Cymru gael gwared ar y cap ar gyfer ceisiadau sengl a dylunio dull mwy deallus o gyfyngu ar gostau na'r cap mympwyol presennol ar grantiau.</p> | <p>Derbyn mewn egwyddor</p> | <p>Mae'r gwaith o ddatblygu'r Rhaglen Cartrefi Clyd newydd yn mynd rhagddo ac mae'n cynnwys asesiad effaith o'r opsiynau. Mae canlyniadau dileu'r cap sengl o blaid dull amgen yn cael eu hystyried i sicrhau mecanwaith teg a chyfartal i reoli lefel y cymorth a ddarperir.</p> |
| <p>Argymhelliad 5. Yn yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu meini prawf cymhwysedd craffach, llai cyfyngol sy'n sicrhau, o leiaf, bod unrhyw aelwyd sy'n bodloni'r diffiniad o dlodi tanwydd yn gallu cael cymorth pan fo angen. Dylai unrhyw newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd hefyd ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ sut y gellir cefnogi eiddo sydd ag EPC gradd D yn y dyfodol; a ▪ chyflwyno trothwy trosiant busnes (lle byddai aelwyd ddomestig yn bennaf sydd hefyd wedi cofrestru fel busnes yn dod yn anghymwys uwchlaw'r trothwy hwnnw) er mwyn helpu i gefnogi busnesau bach a gwledig sy'n digwydd bod yn gweithredu o eiddo domestig ac sy'n destun cyfyngiadau cymhwysedd ar hyn o bryd. | <p>Derbyn</p> | <p>Bydd diben a chwmpas fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd yn cael eu nodi pan fydd y Senedd yn dychwelyd o doriad yr haf 2022. Bydd y meini prawf cymhwysedd yn cael eu cynllunio i sicrhau bod anheddau domestig sydd angen gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn gallu cael cymorth drwy'r rhaglen.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried argymhelliad y Pwyllgor wrth gynllunio manylion y meini prawf cymhwysedd i sicrhau yr eir i'r afael â'r pwyntiau a godwyd.</p> |
| <p>Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru ddysgu gwersi o adroddiad Archwilio Cymru a nodi yn ei hymateb sut y mae'n bwriadu sicrhau bod yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn fwy o ran maint, yn ddoethach o ran pwy y mae'n ei dargedu ac yn wyrddach yn ei hymyriadau.</p> | <p>Derbyn</p> | <p>Bydd diben a chwmpas fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd yn cael eu nodi pan fydd y Senedd yn dychwelyd o doriad yr haf 2022. Bydd y rhaglen yn parhau i gefnogi aelwydydd mewn tlodi tanwydd, ac yn rhan, ar yr un pryd, o'r gyfres o raglenni a gynlluniwyd i ddatgarboneiddio'r 1.4 miliwn o gartrefi yng Nghymru er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau i fod yn sero net erbyn 2050. Bydd adroddiad ar y gwersi a ddysgwyd yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref.</p> |

Argymhellion adroddiad Pwyllgor y Senedd ar Gydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022
Tlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd – ymateb Llywodraeth Cymru

Tudalen y pecyn 15

| Argymhelliad | Derbyn/Gwrthod | Drafft - Ymateb Llywodraeth Cymru |
|--|----------------------|---|
| <p>Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r mecanwaith cyfreithiol y mae'n ei ffafrio ar gyfer cynnal yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd, gan gynnwys sut y bydd yn sicrhau bod y Senedd a rhanddeiliaid eraill yn gallu craffu ar y rhain mewn modd cadarn.</p> | Derbyn | Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rheoliadau drafft yn disodli Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2007. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag aelodau'r Senedd a rhanddeiliaid ehangach cyn i'r Rheoliadau gael eu gwneud. |
| <p>Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru annog atgyweirio boeleri yn hytrach na gosod boeleri newydd lle bo modd, yn enwedig mewn achosion lle nad yw mesurau eraill megis atal drafftiau ac inswleiddio wedi'u harchwilio'n llawn neu lle mae dewisiadau gwyrddach eraill (fel pypiau gwres ffynhonnell aer) ar gael.</p> | Derbyn | Mae'n bosibl trwsio boeler nwy effeithlon o dan y Rhaglen Cartrefi Clyd bresennol a bydd hynny'n cael ei gynnwys yn y rhaglen newydd. |
| <p>Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cynllun seiliedig ar ardal yn y dyfodol yn blaenoriaethu cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng y cynllun, awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol ac eraill.</p> | Derbyn | Mae cynlluniau ôl-osod ac adfywio llwyddiannus sy'n seiliedig ar ardaloedd yn dibynnu ar ymgysylltu effeithiol â'r gymuned leol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i weithredu'r Cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni yng Nghymru a'n Rhaglen Cartrefi Clyd ein hunain. |
| <p>Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi asesiad o fanteision ac anfanteision treialu'r dull "pentref enghreifftiol" o dargedu pentref yn ei gyfanrwydd er mwyn sefydlu glasbrint i drefi a phentrefi eraill ei efelychu. Dylai'r asesiad hwn ystyried gwaith ymchwil presennol ac enghreifftiau o arfer gorau rhyngwladol.</p> | Derbyn mewn egwyddor | <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio modelau pentref enghreifftiol ac yn ystyried pa mor berthnasol ydynt i Gymru. Byddwn yn asesu sut y gallai'r dull gweithredu hwn fod yn addas, a pha fanteision y gallai eu cynnig i'n dull o ddatgarboneiddio ac effeithlonrwydd ynni.</p> <p>Dim ond drwy ddull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth y gallwn sicrhau bod buddsoddiad yn y dyfodol yn dibynnu ar atebion y gallwn fod yn hyderus sy'n gweithio ar draws gwahanol gartrefi a gwahanol ddeiliadaethau.</p> |

Argymhellion adroddiad Pwyllgor y Senedd ar Gydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022
Tlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd – ymateb Llywodraeth Cymru

Tudalen y pecyn 16

| Argymhelliad | Derbyn/Gwrthod | Drafft - Ymateb Llywodraeth Cymru |
|--|----------------|--|
| <p>Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cynllun seiliedig ar ardal yn y dyfodol yn datblygu strategaeth ymgysylltu â'r gymuned i sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'r rhwydweithiau presennol, a bod ymdeimlad cryfach o lawer o ymrwymiad ymhlith cymunedau lleol.</p> | Derbyn | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod manteision ymgysylltu â'r gymuned o ran cyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Llywodraeth a sicrhau'r budd mwyaf posibl ohonynt. Bydd diben a chwmpas fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd yn cael eu nodi pan fydd y Senedd yn dychwelyd o doriad yr haf 2022. Os caiff cynllun sy'n seiliedig ar ardal ei gynnwys fel rhan o'r Rhaglen Cartrefi Clyd, bydd rhaid i asiantau ddatblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned.</p> |
| <p>Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn cynnwys fframwaith cadarn ar gyfer casglu, monitro a gwerthuso data a fydd yn cynorthwyo'r broses o reoli a chydymffurfio â chontractau ac yn galluogi mesur canlyniadau'n well ac archwiliad rheolaidd.</p> | Derbyn | <p>Bwriedir i'r rhaglen yn y dyfodol gynnwys system rheoli data gadarn gan gynnwys adroddiadau blynyddol. Bydd adolygiadau cyfnodol yn sicrhau bod y rhaglen yn ymateb i flaenoriaethau sy'n newid.</p> |
| <p>Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu i'w dull graddol yn y Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf weithio'n ymarferol. Rydym yn argymhell bod y dull graddol yn cael ei ategu gan adolygiadau cyfnodol i ganfod a yw'r Rhaglen yn cyflawni yn erbyn ei hamcanion. Byddai nifer a dilyniant unrhyw adolygiad cyfnodol o'r fath yn dibynnu'n rhannol ar gyfnod a hyd y Rhaglen, fodd bynnag, byddem yn disgwyl i adolygiad ddigwydd hanner ffordd o leiaf.</p> | Derbyn | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu canolbwyntio ar gynnal gwaith wedi'i reoli ac yna adolygiadau cyfnodol. Ein nod fydd y bydd y fersiwn nesaf yn ymateb i amodau'r farchnad a'r gadwyn gyflenwi, gan gydbwyso'r galw â'r capasiti sydd ar gael. Bydd y rhaglen yn parhau i fod yn addas i'r diben a bydd adroddiadau blynyddol ar berfformiad yn cynorthwyo hynny.</p> |

Argymhellion adroddiad Pwyllgor y Senedd ar Gydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022
Tlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd – ymateb Llywodraeth Cymru

Tudalen y pecyn 17

| Argymhelliad | Derbyn/Gwrthod | Drafft - Ymateb Llywodraeth Cymru |
|--|----------------|---|
| <p>Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn pa gamau y mae wedi'u cymryd i sicrhau na all y camgymeriadau a wnaed fel rhan o'r broses o gaffael a rheoli contract y cynllun presennol gael eu hailadrodd mewn ymarfer neu gynllun caffael arall gan y llywodraeth yn y dyfodol.</p> | Derbyn | <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â chaffael a rheoli contractau'r rhaglen bresennol.</p> <p>Mae'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu wedi'i gomisiynu i ddarparu cyngor technegol arbenigol a gwybodaeth am y farchnad i lywio'r strategaeth gaffael ar gyfer fersiwn nesaf y rhaglen. Bydd y strategaeth gaffael yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r sector ôl-osod tai i annog cyflenwyr i gymryd rhan yn yr ymarfer caffael. Bydd gweithdrefnau asesu contractau yn cynnwys meincnodi priodol i sicrhau gwerth am arian.</p> |
